ELL 15- 01(mins)

**Cofnodion y Pwyllgor Addysg a Dysgu Gydol Oes**

**Dyddiad:** 31 Hydref 2001

**Amser:** 2.00pm

**Lleoliad:** Ystafell Bwyllgora 2, Adeilad y Cynulliad Cenedlaethol

**Presenoldeb:**

**Aelodau**

| | | |
|---|---|---|
| Cynog Dafis, Cadeirydd | Plaid Cymru | Canolbarth a Gorllewin Cymru |
| Jane Davidson, Gweinidog y Cynulliad | Llafur | Pontypridd |
| Lorraine Barrett | Llafur | De Caerdydd a Phenarth |
| Mick Bates | Democratiaid Rhyddfrydol | Sir Drefaldwyn |
| Janice Gregory | Llafur | Ogwr |
| Pauline Jarman | Plaid Cymru | Canol De Cymru |
| Huw Lewis | Llafur | Merthyr Tudful a Rhymni |
| Jonathan Morgan | Ceidwadwyr | Canol De Cymru |
| Alun Pugh | Llafur | Gorllewin Clwyd |
| Owen John Thomas | Plaid Cymru | Canol De Cymru |

**Ysgrifenyddiaeth y Pwyllgor**

| | |
|---|---|
| Chris Reading | Clerc |
| Holly Pembridge | Dirprwy Glerc |

**Swyddogion**

| | |
|---|---|
| Richard Davies | Cyfarwyddwr, Adran Addysg a Hyfforddiant y Cynulliad Cenedlaethol |
| Elizabeth Taylor | Pennaeth, yr Is-adran Rheoli Ysgolion |
| Derek Adams | Pennaeth, yr Is-adran Addysg Uwch |
| Keith Davies | Pennaeth, yr Is-adran Safonau a Pherfformiad |
| Mike Harper | Pennaeth, yr Is-adran Dysgu ac Arweinyddiaeth (Cyllideb) |
| Judith Cole | Yr Is-adran Addysg Uwch |
| Ann MacGregor | Yr Is-adran Rheoli Ysgolion |
| Andrew Felton | Swyddfa'r Cwnsler Cyffredinol |

**Ymddiheuriadau**

Gareth Jones

**Dirprwyadau**

Owen John Thomas

**Datganiadau o Fuddiant**

Cynog Dafis Athro Cofrestredig

Jane Davidson Athrawes Gofrestredig; mae ei g•r yn ddarlithydd mewn coleg Addysg Bellach ac yn aelod o Bwyllgor Gwaith Cymdeithas Genedlaethol Athrawon Addysg Bellach ac Uwch

Huw Lewis Athro Cofrestredig

Mick Bates Athro Cymwysedig, Aelod o'r Cyngor Addysgu Cyffredinol;

mae ei wraig yn Bennaeth Ysgol

Lorraine Barrett Llywodraethwr Ysgol

Pauline Jarman Aelod o Lys y Llywodraethwyr, Prifysgol Caerdydd; Arweinydd Cyngor

Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf

Alun Pugh Mae gwraig Alun Pugh yn ddarlithydd mewn coleg Addysg Bellach

**Sesiwn Cyhoeddus**

**Sylwadau Agoriadol y Cadeirydd**

- Yr oedd y Cadeirydd wedi derbyn ymddiheuriad oddi wrth Gareth Jones ac yr oedd Owen John Thomas yn dirprwyo drosto.
- Penderfynodd y Pwyllgor o dan Reol Sefydlog 8.21(vi) gynnal yr holl drafodaethau pellach ar yr adroddiad drafft ar yr Adolygiad o Addysg Uwch yn y dirgel.

**Eitem Un: Cyllideb Ddrafft (45 munud)**

***Papur: ELL 15-01(p.1)***

1. Ymgymerodd y Pwyllgor â'i ystyriaeth o elfennau addysg a hyfforddiant y gyllideb ddrafft ar gyfer 2002-05 yn unol â gofynion Rheol Sefydlog 19. Yr oedd y Pwyllgor wedi cyfleu ei flaenoriaethau yn ffurfiol i'r Gweinidog yng Ngorffennaf 2001 ar gyfer y cylch cynllunio cyllideb presennol. Eglurodd y Gweinidog ei bod wedi cydnabod blaenoriaethau cyllideb y Pwyllgor ac wedi eu cymryd i ystyriaeth wrth lunio ei chynigion. Wrth gyflwyno ei phapur i'r Pwyllgor, tynnodd y Gweinidog sylw at y pwyntiau canlynol:

- Nid oedd cylch cynllunio cyllideb y flwyddyn hon yn adolygiad o wariant.
- Yr oedd y papurau a gyflwynwyd i'r Pwyllgor yn cynnwys papur eglurhaol, llythyr y Pwyllgor yn amlinellu ei flaenoriaethau cyllideb a phapur blaenoriaethau'r Cytundeb Partneriaeth.
- Ni allai'r Gweinidog roi gwybod am gyfanswm y cyllid i Addysg Uwch hyd nes y ceid canlyniad adroddiad y Pwyllgor ar yr Adolygiad o Addysg Uwch. Dywedodd y Gweinidog y byddai'n ymateb ar ran y llywodraeth yn Ionawr 2002. Yr oedd £5 miliwn a £6 miliwn o gyfalaf yn ychwanegol ar gyfer y ddwy flynedd dilynol o ganlyniad i Hyblygrwydd Diwedd Blwyddyn gyda £20 miliwn wrth gefn ar gyfer addysg.
- Byddid yn dyrannu'r £20 miliwn ar gyfer Addysg Uwch er mwyn bwrw ymlaen â'r argymhellion yn Adroddiad Rees ar Gyni Myfyrwyr. Atgoffaodd y Gweinidog y Pwyllgor ei fod wedi dymuno i hyn gael ei gyllido o arian newydd ac nid iddo gael ei gymryd o rywle arall oddi wrth feysydd eraill yn y gyllideb.
- Byddai cyllid ychwanegol yn caniatáu gweithredu graddol ar gyfer darpariaeth blynyddoedd cynnar i rai teirblwydd oed. Yr oedd cynlluniau hefyd i leoli canolfannau blynyddoedd cynnar yn strategol ym mhob AALl. Byddai'r cynigion yn rhoi sylw i'r cymysgedd rhwng y sectorau gwirfoddol a statudol a'r ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg a Saesneg.
- Byddid yn rhoi argymhellion TGCh y Pwyllgor ar waith oddi mewn i'r cynnydd yn y llinell sylfaen bresennol a byddai cyfran ychwanegol o £18.4 miliwn o hynny ar gyfer ymestyn y dechnoleg ystod lydan i ysgolion.
- Byddai'r cyllid ar gyfer datblygu proffesiynol athrawon yn codi o £1.5 miliwn eleni i £5.2 miliwn y flwyddyn nesaf. Dywedodd y Gweinidog y byddai'n dod yn ôl cyn hir â chynigion ar gyfer datblygu proffesiynol cynnar.

- Yr oedd £400,000 wedi ei awgrymu ar gyfer hyfforddiant/datblygiad staff i therapyddion Anghenion Addysgol Arbennig o'r cynnydd yn y llinell sylfaen ar gyfer cyllid GCAH.
- Yr oedd cyllid i'r Cyngor Cenedlaethol i ymdrin â phwysau tâl wedi arwain at roi £7 miliwn ychwanegol ar ben y llinell sylfaen gynyddol ar gyfer 2002-03.
- Bu Llwybrau Diogel i'r Ysgol yn fenter lwyddiannus. Byddai'r cyllid yn cael ei gadw ar £2.7 miliwn yng nghyllideb y Gweinidog dros yr Amgylchedd.
- Byddai ar y Gweinidog angen ymateb ffurfiol oddi wrth y Pwyllgor erbyn 7 Tachwedd. Câi hynny ei drosglwyddo wedyn i'r Gweinidog Cyllid.

2. Codwyd y materion canlynol yn y drafodaeth:

- Croesawodd yr Aelodau y £400,000 o gyllid ychwanegol ar gyfer therapyddion iaith/lleferydd Addysg Anghenion Arbennig a gofynasant a fyddai'r cyllid hwn yn cynnwys darpariaeth ar gyfer cymorth ychwanegol i blant ag anawsterau clywed, boed y rheini'n fach neu'n rhai a oedd yn golygu eu bod yn drwm iawn eu clyw. Dywedodd Deryck Jones na fyddai'r cyllid Anghenion Addysgol Arbennig GCAH penodol hwn o £400,000 o werth uniongyrchol i'r disgyblion hynny sydd â diffygion ar eu clyw ond y byddid yn gwneud defnydd gweithredol o Weithgaredd 6 GCAH yn gyffredinol. Byddai'r prosiect cynllunio Cymru Gyfan hefyd o gymorth i'r disgyblion hynny sydd â diffygion ar y golwg a'r clyw.
- Gofynnodd un Aelod i'r Gweinidog pa bryd y byddai tâl ac amodau darlithwyr colegau Addysg Bellach yn dod yn fwy neu lai'r un fath â rhai athrawon ysgol sydd yn dysgu'r un cymwysterau Safon Uwch a galwedigaethol mewn ysgolion. Eglurodd y Gweinidog fod cyllid ychwanegol (£3.17 miliwn) wedi ei ddarparu yn 2001-02 a bod y cynnydd yn y gyllideb yn cadarnhau hynny i bob pwrpas. Gellid adlewyrchu hyn mewn setliadau tâl. Nid oedd gan y Cynulliad Cenedlaethol unrhyw reolaeth uniongyrchol dros y pecynnau tâl yr oedd colegau yn eu cynnig i staff – câi hynny ei negodi ar lefel y colegau unigol. Awgrymodd y Gweinidog, os oedd y Pwyllgor yn bryderus, y gellid codi'r mater fel rhan o ymateb y Pwyllgor i'r gyllideb ddrafft.

***Cytunodd y Pwyllgor y dylid rhoi nodyn ar ei bryder ynghylch y mater hwn i'r Gweinidog Cyllid. Datganodd y Gweinidog fuddiant yn nhâl ac amodau darlithwyr colegau Addysg Bellach (gweler y tudalen cyntaf).***

- Cododd un Aelod fater yr amrywiad mawr ymysg Awdurdodau Lleol o ran yr hyn a ddirprwyid i ysgolion a'r gwahanol fformiwlâu ariannu ysgolion a gofynnodd a oedd hyn wedi ei gymryd i ystyriaeth yn y gyllideb ac a oedd angen newid yn y fformiwlâu ariannu ysgolion. Dywedodd y Gweinidog ei bod yn amlwg bod gan rai ysgolion yng Nghymru arian wrth gefn ac eraill ddim; yr oedd y prif fformiwlâu llywodraeth leol oddi mewn i gylch gwaith y Gweinidog Cyllid. Yr oedd yn amlwg bod rhai Awdurdodau Lleol heb adolygu eu fformiwlâu unigol ers cryn amser, a bu'r Cynulliad Cenedlaethol yn gweithio'n agos gyda'r Comisiwn Archwilio i adolygu'r system.
- Gofynnodd un Aelod ba lefel o wariant a gynlluniwyd ar gyfer gweithredu argymhellion y Pwyllgor ar strategaeth TGCh ar gyfer y flwyddyn ariannol hon ac a gâi ei ddwyn ymlaen i'r flwyddyn ariannol nesaf yng ngolwg yr oedi cyn gweithredu cam un o'r argymhellion. Dywedodd Richard Davies fod amcangyfrif sydd yn ofynnol ar gyfer darpariaeth blwyddyn lawn wedi ei wneud ac ymgymerodd i ddarparu ateb ysgrifenedig manwl i'r Aelodau.
- Croesawodd yr Aelodau y prydau ysgol am ddim i ddisgyblion Cyfnod Allweddol Un.
- Gofynnodd un Aelod ba ran o'r gyllideb a oedd wedi ei thargedu i gynyddu nifer yr athrawon cyfrwng Cymraeg sydd ar gael, yn enwedig mewn pynciau fel Gwyddoniaeth a.y.b. Dywedodd y Gweinidog fod darpariaeth ar gyfer arian mewn meysydd fel cyflwyno grantiau hyfforddi ar gyfer Hyfforddiant

Cychwynnol Athrawon, dysgu mewn pynciau lle y mae prinder athrawon a chategorïau o gymorth ychwanegol. Ymgymerodd y Gweinidog i ddarparu papur i'r Pwyllgor ar yr ystod o strategaethau ar gyfer recriwtio athrawon. Croesawodd yr Aelodau hynny.

- Gofynnodd Aelod i'r Gweinidog dynnu sylw at yr adnoddau/arian a dargedwyd ar gyfer mynd i'r afael â dieithrwch (cymdeithasol), yn y gyllideb. Atebodd y Gweinidog fod cynnydd wedi bod yn y cyllid GCAH i fynd i'r afael â dieithrwch cymdeithasol eleni. Ar adeg y cyfarfod yr oedd cynhadledd yn Abertawe a drefnwyd gan y Cynulliad Cenedlaethol a oedd yn canolbwyntio ar fater mynd i'r afael â dieithrwch, lle'r oedd y cynigion ar gyfer arweiniad at y dyfodol yn cael eu hystyried. Ychwanegodd Judith Cole fod £500,000 o fewn Ymchwil a Gwasanaethau Addysg ar gyfer dieithrwch a dysgu y tu allan i oriau ar ffurf Hyblygrwydd Diwedd Blwyddyn, yn ogystal â'r hyn a oedd yn llinell GCAH. Eglurodd Richard Davies fod darpariaeth hefyd yn y grant cynnal refeniw, nid lleiaf o dan y rhaglen Ymestyn Hawliau. Yr oedd y ddarpariaeth ychwanegol rhwng £2 filiwn a £3 miliwn i gychwyn ar yr agenda – er bod hyn yn ymwneud yn ymylol â dieithrwch.
- Gofynnodd yr un Aelod a oedd modd dangos mynd i'r afael â dieithrwch fel llinell gyllidebol, a'i gwneud felly'n fwy amlwg i Awdurdodau Addysg Lleol (AALlau). Atebodd y Gweinidog fod ystod eang o faterion yn gysylltiedig â mynd i'r afael â dieithrwch: cynnal y cwricwlwm, cwricwlwm amgen, mynediad ieuenctid, a.y.b. Tynnodd y Gweinidog sylw at y ffaith y byddai'r Pwyllgor yn ystyried GCAH yn ei gyfarfod nesaf ar 8 Tachwedd. Ymgymerodd y Gweinidog i ddarparu nodyn i'r Pwyllgor ar feysydd eraill sydd yn berthnasol i agenda mynd i'r afael â dieithrwch o dan CCAH.
- Cododd un Aelod fater cydraddoldeb cyllido (mewn perthynas â'r uned adnodd) rhwng y sectorau Addysg Uwch yng Nghymru a Lloegr a gofynnodd i ba raddau yr oedd y cynnydd o 2% yn y llinell sylfaen i Gyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru yn bwysig: byddai'r canlyniadau ar ôl cwblhau'r adolygiad yn ffactorau allweddol wrth bennu'r gyllideb ar gyfer Addysg Uwch yng Nghymru; nid oedd y Pwyllgor/Gweinidog wedi ystyried goblygiadau ariannol yr Adolygiad o Addysg Uwch eto. Byddai'r Gweinidog yn ymateb i ganlyniadau'r adolygiad ar ddiwedd Ionawr 2002/dechrau Chwfror 2002. Gofynnodd y Cadeirydd i'r Gweinidog sicrhau y byddai'r cyhoeddiad ganddi yn Ionawr/Chwefror 2002 yn ddiamwys ynghylch y goblygiadau ar gyfer blwyddyn ariannol 2002-03. Atebodd y Gweinidog y byddai'n gwneud hynny.
- Cyfeiriodd Aelod at y cofnodion Pwyllgor o'r cyfarfod ar 27 Mehefin 2001 a'r paragraff a grybwyllai'r £7 miliwn o danwario o'r gyllideb Addysg. Holwyd y Gwenidog ynghylch a oedd y £7 miliwn hwn wedi ei gynnwys yn y gyllideb a drafodid yn y cyfarfod hwn. Atebodd Richard Davies ar ran y Gweinidog ac eglurodd i'r Pwyllgor fod trafodaethau yn mynd ymlaen o hyd gyda'r Gr•p Cyllid ar faterion a oedd yn ymwneud â'r £7 miliwn. Yr oedd proses seneddol hefyd, o ran trefniadaeth ac amseru, ac ni fyddai hyn wedi ei benderfynu tan ar ôl Rhagfyr 2001. Pwysleisiodd Richard Davies wrth yr Aelodau fod y gyllideb yr oeddent yn ei thrafod heddiw yn ymwneud â chynlluniau ac nid alldro. Gallai'r Hyblygrwydd Diwedd Blwyddyn eleni fod wedi codi o ganlyniad i danwario yn y cyfnod 2000-01 ac/neu y cyfnod 2001-02. Deliwyd â'r rhan fwyaf o hyn ond yr oedd swm dros ben, a oedd yn dod i tua £7 miliwn a oedd yn aros yn bennaf am fod rhai o'r ffactorau perthnasol heb ddod yn eglur eto, e.e. mewn perthynas â'r tâl trothwy i athrawon. Ymgymerodd Richard Davies y byddai'r swyddogion yn darparu nodyn i'r Pwyllgor ynghylch y gwahanol benawdau a oedd yn cwmpasu'r £7 miliwn/tanwariant.
- Gofynnodd un Aelod i'r Gweinidog egluro a oedd llaeth i ysgolion yn dod o'r gyllideb amaethyddol. Atebodd y Gweinidog mai o'r gyllideb amaethyddol yr oedd llaeth i ysgolion yn dod.
- Holwyd y Gweinidog a fyddai'r papurau Pwyllgor a oedd i ddod ar fater GCAH ar gyfer cyfarfod 8 Tachwedd yn cynnwys cymwysiadau dyrannu ar gyfer amddifadedd. Atebodd Richard Davies y byddent gan fod y Gweinidog a'i swyddogion wedi ymrwymo ar ôl trafodaeth mewn cyfarfod cynharach o'r Pwyllgor i gymhwyso'r fformiwla GCAH i dargedu amddifadedd.

2. Rhoddodd y Cadeirydd grynodeb o ystyriaethau'r Pwyllgor ar gyllideb 2002-05. Yr oeddent fel

a
ganlyn:

- Rhagor o gyllid ar gyfer Addysg Bellach ac Addysg Uwch ac ar gyfer rhyw gymharedd bras o ran tâl ac amodau gwasanaeth ar gyfer athrawon sydd yn gwneud gwaith tebyg ond mewn sectorau gwahanol, yng Nghymru ac yn Lloegr.
- Yr oedd y Pwyllgor yn dymuno ailddatgan ei ofyn am fwy o gyllid ar gyfer Addysg Uwch mewn perthynas â chau'r bwlch yn yr uned adnodd rhwng Cymru a Lloegr. Cytunodd y Pwyllgor y dylai unrhyw gyllid ychwanegol a dargedwyd ar gyfer Addysg Uwch fod yn berthnasol i'r flwyddyn ariannol nesaf: 2002-03.
- Yr oedd y Pwyllgor yn bryderus hefyd ynghylch y diffyg yn y cyflenwad o athrawon mewn meysydd lle'r oedd prinder: Gwyddoniaeth a Chymraeg. Atgoffaodd y Cadeirydd y Pwyllgor y byddent yn cael papur ar recriwtio athrawon gan y Gweinidog. Dywedodd y Gweinidog fod y Cyngor Addysgu Cyffredinol yn cynnal archwiliad o gymwysterau athrawon ac yr oedd yr adroddiad i ddod yr Hydref hwn; teimlai'r Gweinidog ei bod yn fwy priodol dod â'r papur i'r Pwyllgor ar ôl cwblhau'r adroddiad.

Cadarnhaodd y Cadeirydd y rhoddid adroddiad ar yr ystyriaethau hyn i'r Gweinidog ac wedyn i'r Gweinidog Cyllid.

**Eitem Dau: Ysgolion Gwledig**

***Papur: ELL 15-01(p.2)***

2.1 Amlinellodd y Gweinidog y fframwaith polisi drafft ar gyfer ysgolion gwledig yng Nghymru. Cyflwynodd y Gweinidog ei phapur a chododd y materion allweddol a ganlyn:

- Gellid darparu papur gr•p gorchwyl a gorffen Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru i'r Aelodau os dymunent.
- Yr oedd y Gweinidog wedi ymrwymo yn y cytundeb partneriaeth i amlinellu cynigion ar gyfer ysgolion gwledig/bach. Yr oedd y papur a oedd wedi ei ddangos i'r Aelodau yn y cyfarfod heddiw yn rhan o broses ymgynghori.
- Yr oedd Awdurdodau Lleol yn dymuno cael arweiniad cliriach ar adolygu dyfodol ysgolion gwledig/bach.
- Y mater allweddol wrth ystyried dyfodol unrhyw ysgolion unigol oedd ansawdd y ddarpariaeth addysg, er bod angen cymryd effaith cau ysgol wledig ar y gymuned leol i ystyriaeth hefyd.
- Un o'r cynigion allweddol oedd y dylai Awdurdodau Lleol edrych ar wahanol fathau o gysylltiadau rhwng ysgolion gwledig/bach: ffederasiwn, clystyru, defnydd arloesol o Dechnoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu, teuluoedd o ysgolion (cynradd ac uwchradd) a chymorth peripatetig, a.y.b. Bu rhai enghreifftiau arloesol a llwyddiannus o ddull gweithredu o'r fath ledled y DU.
- Yr oedd adroddiad y Pwyllgor ar y cyflenwad o leoedd ysgol wedi tynnu sylw at yr amseroedd teithio sylweddol a oedd gan rai disgyblion i gyrraedd ysgolion mewn ardaloedd gwledig. Yr oedd y cynigion drafft yn ceisio rhoi mwy o bwyslais ar yr angen i ystyried amseroedd teithio wrth ystyried aildrefnu darpariaeth.
- Yr oedd costau rhedeg ysgolion bach yn anghymesur o fawr.
- Cyfrifoldeb i'r Awdurdodau Lleol o hyd oedd penderfynu dyfodol ysgolion bach a gwledig ac a ddylid rhesymoli'r ddarpariaeth.
- Yr oedd y dystiolaeth yn dangos nad oedd y canlyniadau i ddisgyblion mewn ysgolion bach yn well nac yn waeth na'r rhai mewn ysgolion mwy, er y gall dysgu gwael mewn ysgolion gwledig gael

effaith anghymesur, am eu bod yn fach.

2.2 Cododd y materion canlynol yn y drafodaeth:

- Gofynnodd un Aelod i'r Gweinidog am ei diffiniad o ysgol fach yng ngolwg diffiniad y Comisiwn Archwilio o 90 disgybl ar gyfer ysgol gynradd fach. Atebodd y Gweinidog fod diffiniad y Comisiwn Archwilio wedi ei ddefnyddio yn y papur at ddibenion eglurhaol gan fod ysgol â llai na 90 o ddisgyblion yn fwy costus o lawer. Rhagwelai'r Gweinidog y byddai'r ymgynghoriad yn creu sylwadau ar yr hyn a oedd yn ysgol fach er nad oedd y polisi arfaethedig yn dibynnu ar fabwysiadu diffiniad penodol gan y Cynulliad. Gofynnodd yr Aelod hefyd a oedd yr ystadegau yn Atodiad C i'r papur wedi eu deillio drwy ddefnyddio diffiniad y Comisiwn Archwilio. Cadarnhaodd y Gweinidog eu bod.
- Gofynnodd Aelod a oedd y £2 filiwn ar gyfer dulliau arloesol yn gymorth ychwanegol. Atebodd y Gweinidog fod y £2 filiwn yn gyllid newydd, a fyddai o gymorth i gymell AALlau i ystyried atebion arloesol ar gyfer ysgolion gwledig a bach ac i ddefnyddio adeiladau ysgol yn y modd mwyaf effeithiol. Y brif ystyriaeth oedd ansawdd y ddarpariaeth addysgol. Eglurodd y Gweinidog y byddai'n ymgynghori â Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru ar y trefniadau ar gyfer dosbarthu'r adnoddau ac i ba ddibenion y gellid eu defnyddio. Byddai adroddiad grant arbennig ar y trefniadau y byddai gofyn i'r Cynulliad ei gymeradwyo mewn Cyfarfod Llawn.
- Yr oedd pryder ynghylch a oedd y ddogfen yn ddogfen ysgolion bach neu'n ddogfen ysgolion gwledig gan fod goblygiadau os oedd ysgolion gwledig bach yn gorfod cystadlu ag ysgolion trefol bach am gyllid ychwanegol. Cadarnhaodd y Gweinidog fod y ddogfen yn ymdrin â'r ddau.
- Teimlai un Aelod fod y ddogfen ymgynghorol yn canolbwyntio ar yr agweddau negyddol ar ysgolion bach yn hytrach na'r agweddau cadarnhaol. Gwrthododd y Gweinidog y syniad bod yr adroddiad yn negyddol: yr oedd yn adroddiad ffeithiol. Y prif fater oedd ansawdd dysgu ac effaith llwythi gwaith a dysgu amloedran ar athrawon mewn ysgolion bach. Yr oedd yn bwysig cydnabod a gwerthfawrogi ysgolion a'u rôl mewn cymunedau. Yr oedd rhai ysgolion ar waith heddiw a godwyd ar gyfer anghenion y bedwaredd ganrif ar bymtheg a'r ugeinfed ganrif ac mewn rhai achosion, eu cau fyddai'r dull gweithredu iawn - ond yr oedd angen i AALlau ystyried y cyfle ar gyfer partneriaeth ac arloesedd cyn dod i'r casgliad hwnnw.
- Yr oedd y graff yn Atodiad D yn anodd ei weld oherwydd gwall argraffu. Gofynnodd yr Aelodau am ddarparu gwybodaeth ynghylch lefelau cyrhaeddiad disgyblion mewn ysgolion â llai na 50 o ddisgyblion. *Ar ôl y cyfarfod*, *cyflenwyd yr Aelodau â chopïau o'r graff hwn wedi ei ailfformatio sydd yn darparu data am ysgolion cynradd o bob maint.*
- Cododd cwestiwn ynghylch plant teirblwydd yn gorfod teithio cryn bellter i'r ysgol. Tynnodd y Gweinidog sylw at y ffaith y gellir rhoi darpariaeth blynyddoedd cynnar mewn lleoliadau heblaw ysgolion.
- Yr oedd peth pryder bod y gwariant disgyblion cyfartalog y disgybl yng Nghymru yn £2870, ond y gallai'r gost ar gyfer ysgol fach fod cyn uched â £6000 y disgybl. Yr oedd lefelau cyllido mor uchel yn rhoi disgyblion mewn ysgolion mwy o dan anfantais, yn enwedig mewn ardaloedd difreintiedig. Gofynnwyd i'r Gweinidog a fyddai'r cyfryw fentrau arfaethedig â chydweithio/ffederasiwn yn cynyddu neu'n lleihau'r gwahaniaeth mewn gwariant disgyblion. Atebodd y Gweinidog y gellid lleihau costau weithiau drwy fabwysiadu dulliau arloesol neu geisio defnydd cymunedol o'r adeiladau y tu allan i oriau ysgol. Byddai'r newidiadau a ragwelid yn y Mesur Addysg sydd i ddod yn hwyluso defnydd cymunedol o adeiladau ysgol.
- Holodd y Cadeirydd a oedd yn briodol i'r Pwyllgor gadarnhau'r cynigion yn yr ystyr nad oedd y Pwyllgor yn meddu ar unrhyw bwerau gweithredol. Tynnodd y Gweinidog sylw'r Pwyllgor at y ffaith nad oedd yn gofyn iddo gadarnhau'r polisi yn y papur ond i gadarnhau/cefnogi'r prosesau ymgynghori. Dadleuodd Aelodau eraill mai rôl y Pwyllgor oedd archwilio, cefnogi a chadarnhau.

Teimlai rhai Aelodau ei bod yn briodol i bwyllgor groesawu neu nodi, er enghraifft, y cynigion drafft hyn os oedd yn dymuno gwneud hynny. Dywedodd un Aelod ei bod yn briodol nodi'r cynigion hyn ond nad oedd yn briodol i bwyllgor gadarnhau cynigion ar gyfer adolygiad a wneid gan y llywodraeth. Dywedodd y Gweinidog ei bod yn fodlon i'r Pwyllgor nodi'r argymhellion. Teimlai'r Gweinidog y byddai o gymorth pe byddai Ysgrifenyddiaeth y Pwyllgor yn darparu arweiniad i'r Pwyllgor ar ba bryd y mae'n briodol croesawu camau gweithredu ynghylch proses yn hytrach na gofyn iddo gadarnhau cam gweithredu o'r fath. Gofynnodd y Cadeirydd i'r Pwyllgor a oedd yn fodlon derbyn awgrym y Gweinidog y dylai'r Pwyllgor nodi'r cynigion hyn, neu fel arall byddai'n rhaid cynnal pleidlais.
*Cytunodd y Pwyllgor i nodi'r papur.*

**Eitem Tri: Cofnodion 17 Hydref**

***Papur: ELL 14-01(mins)***

3.1 Cadarnhaodd y Pwyllgor gofnodion y cyfarfod ar 17 Hydref.

**Papurau i'w Nodi**

**Nododd y Pwyllgor y papurau canlynol:**

***Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai: Papur briffio Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru ar y pwysau ariannol y mae llywodraeth leol yn eu hwynebu***

***Papur: ELL 15-01(p.3)***

**Adroddiad Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru ar Bwysau ar Wariant yn 2002-03**

***Papur: ELL 15-01(p.4)***

***Buddsoddiad mewn Asedau Awdurdod Lleol yng Nghymru: Adroddiad 2001 yr Is-gr•p Cyfalaf***

***Papur: ELL 15-01(p.5)***

**Sylwadau'r Cadeirydd Wrth Gloi**

- Dywedodd y Cadeirydd ei fod yn bryderus iawn o gael gwybod bod Addysg Uwch Cymru wedi derbyn copi llawn o adroddiad drafft y Pwyllgor ar yr Adolygiad o Addysg Uwch. O ganlyniad i hynny, yr oedd un o swyddogion Addysg Uwch Cymru wedi cylchredeg yr adroddiad; felly yr oedd cynnwys y ddogfen hon yn hysbys i lawer. Yr oedd y Pwyllgor wedi dilyn ei drafodaeth o'r Adolygiad o Addysg Uwch yn y dirgel ac yr oedd amryw o bapurau sydd yn ymwneud â'r sesiynau hyn wedi eu cylchredeg i'r Pwyllgor. Hysbysodd y Cadeirydd y Pwyllgor y byddai'n codi'r mater hwn gyda'r Panel Cadeiryddion, y Llywydd a Chlerc y Cynulliad. Eglurodd y Cadeirydd ei fod ef ei hun a'r Pwyllgor yn mynegi gofid mawr ynghylch y mater hwn.

- Eglurodd y Gweinidog iddi gael gwybod am ddatgelu'r papur ar y nos Wener cynt a mynegodd ofid mawr. Teimlai na ellid gadael y mater i ymchwiliad yn y dyfodol ac y dylid ymchwilio iddo'n awr. Bu'r Pwyllgor yn cyflawni'r gwaith hwn am flwyddyn ac yr oedd perygl i'w hygrededd. Awgrymodd y Gweinidog y dylai'r Llywydd sefydlu ymchwiliad i'r mater ar unwaith. Awgrymodd un Aelod y dylai'r rheolwr gwasanaeth cyfrifiadurol olrhain negeseuon e-bost.

**Sesiwn Preifat**

***Wedi hynny ymgymerodd y Pwyllgor â'i ystyriaeth o adroddiad drafft yr Adolygiad o Addysg Uwch yn y dirgel.***

**Ysgrifenyddiaeth y Pwyllgor Tachwedd 2001**

**Pwyntiau Gweithredu**

| **Cam gweithredu** | **Y Cam Gweithredu i'w gyflawni gan:** |
|---|---|
| **1. Byddai'r Cadeirydd yn ysgrifennu at Weinidog y Cynulliad gan gofnodi'n ffurfiol sylwadau'r Pwyllgor ar y gyllideb ddrafft.** | **Y Cadeirydd** |
| **2. Yr oedd y Clerc i sicrhau copi gwell o Atodiad B(p.2) a'i gylchredeg i Aelodau'r Pwyllgor.** | **Y Clerc** |
| **3. Byddai'r swyddogion yn darparu nodyn i'r Pwyllgor ar yr union lefelau o wariant ar y strategaeth TGCh ar gyfer y flwyddyn ariannol hon a'r flwyddyn ariannol nesaf.** | **Swyddogion Adran Addysg a Hyfforddiant y Cynulliad Cenedlaethol** |

| | |
|---|---|
| **4. Byddai'r swyddogion yn darparu nodyn i'r Pwyllgor ar y meysydd cyllideb sydd yn ymwneud â chynyddu'r ddarpariaeth Cyfrwng Cymraeg** | **Swyddogion Adran Addysg a Hyfforddiant y Cynulliad Cenedlaethol** |
| **5. Byddai'r swyddogion yn darparu nodyn i'r Pwyllgor ar feysydd eraill yn y gyllideb sydd yn berthnasol i fynd i'r afael â dieithrwch.** | **Swyddogion Adran Addysg a Hyfforddiant y Cynulliad Cenedlaethol** |
| **6. Byddai'r swyddogion yn darparu nodyn i'r Pwyllgor ar y gwahanol benawdau sydd yn ymwneud â thanwario.** | **Swyddogion Adran Addysg a Hyfforddiant y Cynulliad Cenedlaethol** |